

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 02/2018)

I:

Sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Sefydliadau addysg bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau addysg uwch dynodedig
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr
Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS)
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Colegau Cymru
a phartion eraill â buddiant

25 Mehefin 2018

Annwyl Gydweithiwr

CYMORTH I FYFYRWYR CYMRU: POLISI BENTHYCIADAU AR GYFER GRADDAU DOETHUROL ÔL-RADEDIG

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn disgrifio'r polisi ar gymorth i fyfyrwyr cymwys ar gyfer graddau doethurol ôl-raddedig ym mlwyddyn academaidd 2018/19. Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 yw sail y system gymorth o fenthyciadau i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru a myfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau gradd doethurol mewn blynyddoedd academaidd sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Awst 2018. Daeth y rheoliadau i rym ar 25 Mehefin 2018.

Darperir cymorth ar ffurf benthyciadau: gall myfyrwyr cymwys wneud cais am fenthyciad, heb brawf modd, o hyd at £25,000 ar gyfer cyfnod cwrs doethurol ôl-raddedig. I fod yn gymwys, rhaid i fyfyrwr fod yn 'fyfyrwr cymwys' yn astudio cwrs gradd doethurol. Cyfraniad at gost astudio yw'r benthyciad, yn hytrach nag arian sy'n benodol ar gyfer ffioedd dysgu neu gostau byw. Gall myfyrwyr ddefnyddio'r benthyciad i gefnogi eu hastudiaethau fel y mynnant. Gall carcharorion cymwys hefyd wneud cais am gymorth. Cyfyngir y cymorth i ffi'r cwrs sy'n daladwy gan y carcharor neu £25,000, pa bynnag swm sydd isaf.

Nodir isod agweddau allweddol eraill o'r polisi:

- ar gael i bobl sydd â statws preswlydd sefydlog ac sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru; i wladolyn o'r Undeb Ewropeaidd neu aelod teulu gwladolyn o'r Undeb Ewropeaidd, i'r rheiny sydd â statws preswyl fel ffoadur, i bersonau heb

Student Finance Wales Information Notice (SFWIN 03/2017)

wladwriaeth sydd â chaniatâd i aros, neu bobl â chaniatâd mynediad neu ganiatâd i aros, gan gynnwys aelodau eu teulu sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru;

- ar gael i fyfyrwr hyd at 59 mlwydd oed ar ddiwrnod cyntaf y cwrs;
- ni ddylai'r myfyrwr feddu ar gymhwyster doethurol cyfwerth neu gymhwyster uwch (gan gynnwys cymwysterau a gafwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig);
- heblaw am un eithriad, ni ddylai myfyrwr fod wedi cael benthyciad doethurol gan Weinidogion Cymru nag unrhyw weinyddiaeth arall yn y Deyrnas Unedig yn flaenorol;
- i atal dyblygu, ni ddylai myfyrwr fod yn derbyn cyllid o ffynonellau penodol eraill, gan gynnwys Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS2) a'r Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu (M2A);
- ar gael i astudio cyrsiau doethurol a gynigir gan ddarparwr yn y Deyrnas Unedig sy'n bodloni ambell faen prawf penodol o ran dynodiad;
- rhaid i gyrsiau fod yn rhai gradd doethurol ôl-raddedig llawn-amser, rhan-amser neu ddysgu o bell ac sydd rhwng tair ac wyth mlynedd o hyd;
- mae cwrs yn gwrs dynodedig os, ymysg pethau eraill, yw'n un o'r canlynol—
 - i. wedi'i ddarparu'n llawn gan sefydliad a ariennir yn gyhoeddus;
 - ii. wedi'i ddarparu gan sefydliad a ariennir yn gyhoeddus a leolir yn y Deyrnas Unedig ar ran sefydliad a ariennir yn gyhoeddus;
 - iii. wedi'i ddarparu gan sefydliad a ariennir yn gyhoeddus mewn cydweithrediad â sefydliad sydd wedi'i leoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
 - iv. wedi'i ddarparu i raddau helaeth yn y Deyrnas Unedig.
- Gall cyrsiau eraill fod yn rhai dynodedig hefyd, yn ôl disgrisiwn gweinidogion Cymru;
- Nid oes profion modd yn gysylltiedig â'r benthyciadau;
- Telir benthyciadau fesul cyfran i gyd-fynd â blynyddoedd y cwrs doethurol dynodedig; ac
- o ran pob blwyddyn o'r cwrs dynodedig, mae taliadau'n amodol ar gadarnhad presenoldeb gan y sefydliad dan sylw.

YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch â'r Is-adran Addysg Uwch: HEDConsultationsMailbox@llyw.cymru